TORFAEN COUNTY BOROUGH — BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# CRONFA'R DEGWM

# NODIADAU CANLLAW

## PWY SY'N GYMWYS I WNEUD CAIS AM GRANT

Gall sefydliadau wneud cais am grant o dan Gronfa'r Degwm ar yr amod bod y grant yn cael ei ddefnyddio fel a ganlyn:

Y dibenion Elusennol y gellir ymgeisio i'r Gronfa ar eu cyfer:

**Hyrwyddo Addysg**
**Addysgol**

1. Darparu buddion nad ydynt ar gael yn rhwydd o ffynonellau eraill ar gyfer personau o unrhyw oedran yn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol –
   - (i) Dyfarnu ysgoloriaethau, bwrsariaethau, benthyciadau neu lwfansau cynhaliaeth i alluogi neu gynorthwyo astudiaeth mewn unrhyw ysgol, prifysgol neu fan dysgu arall, a gymeradwywyd gan y Cyngor, a allai gynnwys lwfansau i ddibynyddion os yw'r Cyngor o'r farn fod hynny'n addas;
   - (ii) Darparu cymorth ariannol, dillad, offer, offerynnau, cyfarpar arall, neu lyfrau neu fenthyciadau i alluogi disgyblion neu fyfyrwyr sy'n gadael yr ysgol, y brifysgol neu unrhyw sefydliad addysgol arall i baratoi ar gyfer eu mynediad i broffesiwn, crefft neu alwedigaeth, neu i gynorthwyo gyda hynny;
   - (iii) Dyfarnu ysgoloriaethau neu lwfansau cynhaliaeth neu fenthyciadau i alluogi buddiolwyr i deithio dramor i ddilyn eu haddysg;
   - (iv) Darparu cyfleusterau o unrhyw fath nad ydynt yn cael eu darparu fel arfer gan awdurdod addysg lleol, neu ysgol a gynhelir â grant, ar gyfer hamdden, hyfforddiant cymdeithasol a ffisegol mewn ysgol, prifysgol neu sefydliad addysgol arall, neu gynnig cymorth tuag at eu darparu,;
   - (v) Darparu cymorth ariannol i alluogi disgyblion a myfyrwyr i astudio cerddoriaeth neu gelfyddydau eraill;
   - (vi) Darparu cymorth ariannol i alluogi buddiolwyr i ymgymryd â phrentisiaethau.

**Llyfrgelloedd, amgueddfeydd, orielau celf ac ati.**

2. Hyrwyddo gwybodaeth am gelfyddydau a llenyddiaeth Cymru, a gwerthfawrogiad ohonynt, ac, yn benodol, wrth hyrwyddo'r dibenion hynny ond heb ragfarnu eu cyffredinolrwydd –
   - (i) Sefydlu, cynnal, ailgyflenwi neu gynorthwyo sefydliadau elusennol, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, orielau celf; neu arddangosfeydd celf, gwyddonol neu ddiwydiannol (gan gynnwys arddangosfeydd sy'n ymwneud ag archaeoleg Ddiwydiannol); boed yn genedlaethol neu'n lleol, at ddefnydd a budd pennaf y Cymry;
   - (ii) Cynorthwyo cymdeithasau elusennol i astudio ac ymchwilio mewn pynciau sy'n gysylltiedig â hanes, topograffi, llenyddiaeth a bywyd Cymru;
   - (iii) Darparu darlithoedd, arddangosfeydd ac offer;
   - (iv) Caffael ar gofnodion a dogfennau, eu cadw a'u cyhoeddi;
   - (v) Darparu safle addas (drwy godi, prynu, prydlesu neu logi at ddefnydd achlysurol) ar gyfer unrhyw un o'r dibenion a awdurdodir gan y paragraff hwn.

**Lleddfu Tlodi**
**Lleddfu mewn angen**

3. Lleddfu personau sydd mewn angen, caledi neu drallod, naill ai'n gyffredinol neu'n unigol, drwy roi grantiau ariannol neu ddarparu eitemau, gwasanaethau neu gyfleusterau y cyfrifir y byddant yn lleihau angen, caledi neu ofid unigolion o'r fath, neu dalu amdanynt.

**Hyrwyddo Crefydd**
**Mannau addoli a thir claddu**

4. Cyfrannu tuag at adfer unrhyw fan addoli cyhoeddus neu unrhyw dir claddu, a'u cynnal.

**Dibenion Eraill sydd o Fudd i'r Gymuned**
**Lleddfu mewn salwch**

5. Mewn achosion o angen ymhlith personau sy'n sâl, yn ymadfer, yn anabl, dan anfantais neu'n aflwyddus, lleddfu trwy ddarparu eitemau, gwasanaethau neu gyfleusterau y cyfrifir eu bod yn mynd i leddfu'r dioddefaint neu gynorthwyo i adfer pobl o'r fath, ond nad ydynt ar gael iddynt yn hwylus o ffynonellau eraill, neu dalu amdanynt.

**Pobl oedrannus**

6. Darparu llety ar gyfer pobl oedrannus, y mae angen derbyniad, gofal a sylw o'r fath arnynt oherwydd cyflwr ac anableddau oedran, neu gynorthwyo i'w ddarparu. Rhoi arian i sefydliadau sy'n hyrwyddo lles pobl oedrannus.

**Cymdeithasol a hamdden**

7. (i) Darparu cyfleusterau hamdden neu gyfleusterau ar gyfer camp amser hamdden arall sy'n gyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol ac sy'n cael eu darparu er budd lles cymdeithasol gyda'r bwriad o wella amodau bywyd y personau y maent wedi'u bwriadu ar eu cyfer, neu gynorthwyo i ddarparu cyfleusterau o'r fath, ac, yn benodol, wrth hyrwyddo'r dibenion hyn ond heb ragfarnu eu cyffredinolrwydd, darparu, neu gynorthwyo i ddarparu, caeau chwarae, cyfleusterau chwaraeon eraill, parciau, mannau agored a chanolfannau neu neuaddau ar gyfer cyfarfodydd, darlithoedd neu ddosbarthiadau;
   (ii) Bwriedir fod is-baragraff (1), yn benodol, yn ymwneud â darparu, neu gynorthwyo i ddarparu, cyfleusterau ac ati ar gyfer personau mewn angen oherwydd eu hieuenctid, henaint, gwendid neu anabledd, tlodi neu amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd.

**Materion esthetig, pensaernïol, hanesyddol a gwyddonol**

8. Hyrwyddo addysg a budd cyhoeddus y Cymry drwy hyrwyddo eu diddordeb mewn materion esthetig, pensaernïol, hanesyddol neu wyddonol sy'n ymwneud â Chymru ac, yn arbennig, wrth hyrwyddo'r materion hynny ond heb ragfarnu eu cyffredinolrwydd –
   (i) Caffael a chadw –
      (a) tir sydd o ddiddordeb arbennig mewn perthynas â gwyddoniaeth a hanes naturiol;
      (b) tir, adeiladau neu wrthrychau o harddwch neu o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol.
   (ii) Caffael ar gofnodion a dogfennau sydd o ddiddordeb hanesyddol, eu cadw a'u cyhoeddi.

**Ymchwil feddygol a chymdeithasol, triniaeth, ac ati.**

9. Cadw a diogelu iechyd corfforol a meddyliol cymdeithas ac, yn benodol, wrth hyrwyddo'r dibenion hynny ond heb ragfarnu eu cyffredinolrwydd –
   (i) Hyrwyddo addysg am theori ac ymarfer meddygaeth;
   (ii) Hyrwyddo ymchwil a chynlluniau meddygol a chymdeithasol ar gyfer atal a thrin clefydau a chyhoeddi canlyniadau ymchwil o'r fath;
   (iii) Darparu meithrinfeydd a chartrefi ymadferol a hosteli.

**Prawf ac ati**

10. Rhoi grantiau mewn achosion o angen i gynorthwyo –
    - (i) Personau sydd wedi'u lleoli ar brawf, neu blant a phobl ifanc o gartrefi cymunedol neu unrhyw Sefydliad arall o natur debyg iawn a sefydlwyd o dan awdurdod statudol;
    - (ii) Teuluoedd unrhyw bersonau, plant neu bobl ifanc o'r fath;
    - (iii) Carcharorion sydd wedi eu rhyddhau,

**Pobl sy'n Ddall neu â Nam ar eu Golwg**

11. Darparu ar gyfer lles personau sy'n ddall neu â nam ar eu golwg, gan gynnwys darparu cartrefi elusennol a chartrefi gwyliau.

**Argyfyngau neu drychinebau**

12. Cyfrannu tuag at leddfu effeithiau argyfyngau neu drychinebau lle mae yna ddinistr i fywyd neu eiddo neu berygl i fywyd neu eiddo, a chynorthwyo pobl sydd mewn angen o ganlyniad i argyfyngau a thrychinebau o'r fath yn uniongyrchol.

**Sefydliadau elusennol eraill**

13. Cyfraniadau tuag at fudiadau elusennol, y mae eu dibenion yn gyson â darpariaethau'r Cynllun hwn neu Ddeddfau Eglwysi Cymru 1914 i 1945.

## TALU GRANTIAU'R DEGWM

Os ydych yn llwyddiannus, cewch daliad drwy drosglwyddiad banc uniongyrchol felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r manylion banc cywir. **Mae'n rhaid i chi gydnabod eich bod wedi derbyn y taliad hwn**.

## AMODAU A THELERAU'R GRANT

Amod wrth gymeradwyo'r grant yw eich bod yn cyflwyno prawf ar ffurf anfonebau neu ddogfennaeth berthnasol arall, i'r Cyngor, i ddangos bod y grant wedi cael ei ddefnyddio at y dibenion a nodwyd yn y cais gwreiddiol.

## SUT I WNEUD CAIS

I wneud cais am gyllid mae'n ofynnol i chi lenwi ffurflen gais, ac mae'r ffurflen gais ar gael o amrywiaeth o ffynonellau:

- O'n gwefan: Cronfa'r Degwm | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Trwy e-bost: Helen.Jenkins@torfaen.gov.uk

## PA MOR AML MAE CEISIADAU'N CAEL EU HYSTYRIED?

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried ar 30 Ebrill 2024, 31 Gorffennaf 2024, 31 Hydref 2024 a 31 Ionawr 2025

Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau hwn yn cael eu cadw tan ddyraniad y flwyddyn ariannol nesaf. Dim ond un cais gan bob sefydliad fydd yn cael ei ystyried gan y Gweithgor Grantiau ymhob blwyddyn ariannol.

Fersiwn 2 03/07/20